

## Siapio Hi!

### Sut i godi arian

Gellir noddŷ'r disgyblion am bob siâp y gallant ei greu mewn timau. **Er enghraifft: 50c am bob siâp x 10 siâp = £5.00**

Fel arall, gall y rhieni a'r gofalwyr wneud cyfraniad.

Gallech wneud y gweithgaredd hwn yn y dosbarth gyda'r disgyblion mewn timau, neu beth am gynnal cystadlaethau rhwng dosbarthiadau neu hyd yn oed yr athrawon yn erbyn y disgyblion!

### Cyfleoedd dysgu

- adnabod a deall gwahanol siapiau geometrig sy'n mynd yn fwy anodd wrth fynd ymlaen
- gweithio a chyfathrebu mewn fîm

### Beth sydd ei angen arnoch

- dau dîm o ryw 10 - 15 disgybl
- ystafell fawr gyda matiau meddal wedi'u gosod ar y llawr. Byddai neuadd chwaraeon yn ddelfrydol.
- cyfres o gyfarwyddiadau / taflen sgorio ar gyfer arweinydd y gweithgaredd a'r beirniaid
- cloc amseru
- cadeiriau ar gyfer yr arweinydd a'r beirniaid

### Sut i chwarae

- 1 Mae'r disgyblion yn ffurfio dau dîm, sef fîm A a thîm B
- 2 Mae'r arweinydd yn egluro'r gêm, sef bod yn rhaid i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i greu'r siâp a gaiff ei ddarllen allan ac y bydd ganddynt 60 eiliad i wneud hynny. Bydd y fîm sydd wedi creu'r siâp mwyaf cywir yn cael pwyntiau, yn ôl penderfyniad y beirniaid.
- 3 Mae'r arweinydd yn darllen enw 12 siâp allan yn eu tro; mae'r myfyrwyr yn cael eu hamseru ac mae pwyntiau'n cael eu dyfarnu. Mae'r siapiau yn mynd yn fwy anodd wrth i'r gêm fynd yn ei blaen.
- 4 Rhoddir 2 bwynt am y siâp gorau, 1 pwynt am gael y siâp iawn, a 0 os yw'r siâp yn hollol anghywir.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, awgrymir siapiau y gellid eu cynnwys, ynghyd â thaflen gofnodi a argymhellir

## Siapio Hi!

## Shapes

- 1 Petryal
- 2 Sgwâr
- 3 Triongl hafalochrog
- 4 Triongl isosgeles
- 5 Rhombws
- 6 Paralelogram
- 7 Barcud
- 8 Cylch
- 9 Hecsagon rheolaidd
- 10 Pentagon rheolaidd
- 11 Hanner cylch
- 12 Octagon rheolaidd
- 13 (her – dewisol) Pyramid â gwaelod sgwâr

## Tabl cofnodi

Siâp	Tîm A	Tîm B
Petryal		
Sgwâr		
Triongl hafalochrog		
Triongl isosgeles		
Rhombws		
Paralelogram		
Barcud		
Cylch		
Hecsagon rheolaidd		
Pentagon rheolaidd		
Hanner cylch		
Octagon rheolaidd		
Pyramid â gwaelod sgwâr		
<b>Cyfanswm pwyntiau</b>		